

# Y Traddodiad a garlamodd i dre'r Brifwyl – a goleuni newydd sbon ar "Men" Eifion Wyn

GELLIR gosod ffiniau pendant i oes aur Porthmadog. Agorwyd yr Harbwr yn 1824 a chynnydd cyson fu yr hanes hyd ddirywiad y farchnad lechi yn dilyn y rhyfel byd cyntaf. Llai na chan mlynedd mewn gwirionedd fu cyfnod yr ehangu ond yn ystod ail hanner y ganrif perthynai afiaith arbennig i fywyd y dref.

Tref fechan ydoedd Porthmadog ond ymestynai ei gorwelion hyd Cadiz, Copenhagen, Gibraltar, Hamburg, Leghorn, Naples, Rotterdam, St. John's Newfoundland a myrdd o borthladdoedd llai. Enwau beunyddiol oeddynt i'r teuluoedd a ddilynai hynt y llongau.

Wrth alw'n ôl ei fachgendod yn nawdegau'r ganrif seiniu ac aroglau a ymfurfiu yn atgofion synhwyrâu i'r diweddar W. Hugheston Roberts. Clywai eto leisiau cryf y peilotiaid wrth iddynt annog y llongau tros y bar ar gychwyn neu ddiwedd mordaith a pharabl tramorwyr ar ben y cei.

Curo cyson maledi calico y seiri wrth iddynt bwyo'r ocwm rhwng ystyllod y sgwneri. Arogl iach tar Stockholm oedd yn ei farn wedi socian ddigon i gnawd y rigwyr i atal dirywiad eu cyrff am gryn amser wedi eu claddu.

Ym marcddy ei dad lle prentisiwyd ef 'roedd dŵr Cwm Bychan eisoes wedi gyrru olwynion melin lifio, blawd a gwlan cyn cyrraedd.

Cyrchai troliau ffermwyr y cylch gynnyrch melinau Dyffryn Madog ac hyd heddiw erys y traddodiad ymysg rhai o'r gwladwyr o ddod i lawr i'r dref ar ddydd Gwener, diwrnod marchnad Tremadog gynt.

Yr oedd cymaint o ddiwydiannau'r dref yn gysylltiedig ac yn ddibynnon ar ei phrif ddiwydiant. Nid pedoli a thrin erydr, dyletswyddau traddodiadol gefeiliau'r wlad âi â bryd gofaint y porthladdoedd.

Hynododd John Williams, (Ioan Madog) ei hunan yn gymaint am ei farddoniaeth ond trwy ddyfeisio offer arbennig fel y 'sidlath' neu'r *windlass* a fabwysiadwyd ar longau America gan na threffferthwyd i gymryd patent.

Ef hefyd fu'n gyfrifol am y 'tywod-flwch hunan weithredol' a hwylusai daith yn injeni wrth i ymdrech tynnu'r wageni i fyny'r rhiwiau ar lein Ffestiniog beri iddynt lithro ar y cledrau.

YN swyddfeydd a masnachdai'r dref datblygodd dosbarth o wŷr cyfrifol, darbodus ac



Llun John Thomas Lerpwl o Myrddin Fardd



Hen ddarlun prin o Myrddin Fardd (ar y chwith). Credir mai Cennin yw'r llall.

uchelgaieiol. Perthynai iddynt briodoleddau a rhinweddau y dosbarth canol a gysylltir â threfi a dinasoedd llawer iawn mwy.

Hwy oedd arweinwyr gweithgareddau crefyddol a diwylliannol y dref. Hwy oedd yn llenwi y sêd fawr yn y capeli, hwy oedd y prif gyflogwyr, bancwyr, asiantwyr yswiriant a'r cyfreithwyr. Hwy oedd yn ysgogi'r holl ferw cerddorol, llenyddol, ysgrythurol ac eisteddfodol ym Mhorthmadog.

I'r dosbarth yma yn naturiol y perthynai tywysogion y pulpudau. Rhwng 1837 a 1873 nid oes amheuaeth mai'r Parchedig William Ambrose, gweinidog Salem (A) sydd yn fwy adnabyddus fel Emrys oedd y blaenaf ohonynt.

Yn ogystal â bod yn weinidog a phregethwr grymus 'roedd yn

fardd, beirniad eisteddfodol a siaradwr huawdl ar unrhyw fater cyhoeddus. Yn ei gofiant iddo disgrifia Hiraethog fel yr arferai pawb "yn wreng a bonedd dalu parch iddo pan gerddai drwy'r dref fel y gallesid tybio mai un o brif foneddigion y wlad ydoedd."

Buddsoddodd mewn cyfranddaliadau'r llongau, adeiladodd blas Bodawen yn gartref: dichon mai ei briodas gyda gweddwy gyfforddus ei byd a wnaeth hyn yn bosibl.

Ddydd ei angladd cludai hanner cant o gerbydau y prif alarwyr i fynwent Capel Helyg. Darparwyd trê'n arbennig i gludo'r gweddill. Nid cofgolofn goffadwriaethol a gafodd ond capel y bu'n rhaid ysywaeth ei ddimchwel yn ddiweddar.

Y BARDD bregethwr arall a

gysylltir â Phorthmadog yw J.J. Roberts (Iolo Caernarfon) gweinidog y Tabernacl (M.C.) rhwng 1878 - 1909. Bu iddo oes hirach na Emrys felly naturiol oedd i'w gynnyrch barddonol fod gymaint yn fwy. Serch hynny ni crys fawr ddim cofiadwy.

Ni pherthynai iddo yr huawdledde ysgubol a nodweddi Emrys; dioddefodd oddi wrth anhwylder lleisiol a oedd mae'n debyg yn mennu ar ei berfformiadau llafar yn achlysurol.

Gan iddo ei ddisgrifio ei hun fel un 'a garai ei wlad a'i genedl yn angerddol' barnai ei gofiannydd y dylid ymhelaethu ar y cofnod 'hollol eithriadol' yma yn ei ddyddiadur.

*Chwefror 3, 1901: 'Traddodais bregeth angladdol i'r Frenhines gyda hwyl,' prawf syml yw hyn o'i 'awydd am godi Cymru a'r Cymry ar raddfa daioni' o'r fath ac yr ymgorfforai y grasusaf ymadawedig.*

Nid oedd unrhyw anghysondeb yn hyn, wrth gwrs, â'i edmygedd o T.E. Ellis ac O.M. Edwards. Dyma'r prif reswm tros yrru ei fab John i ysgol ramadeg Y Bala.

Nid oedd ysgol ganolraddol newydd Porthmadog yn haeddu unrhyw ystyriaeth. A fyddai ei fab wedi ennill mynediad i Rydychen a datblygu yn un o gewri ei enwad o'r fath feithrinfa? Gellir dychmygu ateb Iolo.

I ysgol ganolraddol ymhen ychydig flynyddoedd y daeth y disgybl bach swil a nerfus o Ryd ddu gan hiraethu am fynyddoedd ei gynefin oherwydd rhaid iddo aros yn y dref.

Ar gowrt capel Iolo Caernarfon y sleiswyd ef gan dŵr o'r bechyn i ymladd gyda Dic Cloth Hall, diniweityn arall. Yna'r bygythiad i ffurfio 'pac yn ei erbyn'.

Ffwrdd ag ef i'r lojin ple achosodd y profiad ysgol *dychrynlyd* yma iddo *fyfyrion ofn* am wythnosau a dwyn y cyfan i gof ymhen blynyddoedd pan gyfarfu â Dic yn Aberystwyth.

Er i sylfaen yr yrfa academig ddisglair gael ei gosod yn yr ysgol ganolraddol mae'n ddadlennol nad yw yn ymdrin â hyn yn ei ysgrifau. Ni hoffodd y lle.

\*\*\*

O YSTYRIED natur y gymdeithas nid rhyfedd i Borthmadog fod yn lleoliad tair eisteddfod arbennig yn ystod ail hanner y ganrif. Cynhaliwyd y gyntaf, Eisteddfod Madog yn